



EICH CARTREF



Croeso i Cartrefi
Cymunedol
Gwynedd
(CCG). Landlord
cymdeithasol
yw CCG, gyda
thua 6,200 o
dai ar hyd a lled
Gwynedd. Rydym
yn darparu cartrefi
a gwasanaeth
fforddiadwy
ac o safon i'n
tenantiaid.

Mae'r daflen hon yn egluro beth yw rhai o'r hawliau a'r cyfrifoldebau sydd yn y Cytundeb Tenantiaeth a wnaethoch chi arwyddo fel tenant newydd i CCG. Am fanylion yr hawliau a'r cyfrifoldebau rheiny edrychwch ar eich Cytundeb Tenantiaeth llawn.

SYMUD I MEWN

Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor i chi am symud i mewn i'ch cartref. Yn ogystal â'r llawlyfr byddwch yn cael pecyn gwybodaeth ar ddechrau eich tenantiaeth.

Pan gewch chi eich goriadau am y tro cyntaf gan CCG mae angen i chi wneud ambell i beth cyn setlo yn eich cartref newydd.

NWY TRYDAN, TANWYDD A DŴR

Byddwch yn derbyn gwybodaeth gan ein Swyddogion Gosod ar sut i sefydlu eich cyflenwad trydan, nwy neu danwydd arall yn eich cartref newydd ar ddechrau eich tenantiaeth. Bydd angen i chi roi gwybod i ni pan fydd cyflenwad i'r eiddo fel y gallwn drefnu unrhyw archwiliadau pellach o'r systemau.

Mae mesurydd allwedd mewn rhai o'n tai ar gyfer y trydan a nwy - fe gewch chi ddewis os ydych am eu cadw neu eu newid. Gallwch hefyd newid eich cyflenwr nwy a thrydan os ydych yn dymuno.

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

Bydd angen i chi greu cyfrif yn eich enw chi ar gyfer y cyflenwad dŵr. Mae mesurydd ar gyfer y dŵr mewn rhai cartrefi.

FFÔN

Cysylltwch â'ch cwmni ffôn i drefnu cymryd y lein drosodd neu osod ffôn newydd. Cofiwch ddweud wrthym beth yw eich rhif ffôn newydd neu os yw rhif eich ffôn symudol yn newid. Mae'r manylion hyn yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

TELEDU AC ERIAL

Nid yw CCG yn darparu erial teledu ac eithrio mewn rhai mathau o eiddo er enghraifft, fflatiau a maisonettes.

Os oes erial unigol yn yr eiddo, eich cyfrifoldeb chi yw hwn. Os nad oes erial teledu unigol wedi ei ffitio, eich cyfrifoldeb chi yw gosod un. Ble bo modd, dylech ddefnyddio erial dan do neu un yn yr atig. Os oes angen erial allanol arnoch, cysylltwch â'r tîm Trwsio am gyngor ar ble i'w osod.

Ni ddylech godi unrhyw erial na dysgl loeren heb ganiatâd ymlaen llaw gan CCG.

GOFAL MEDDYGOL

Cysylltwch gyda'ch deintydd a'ch meddyg teulu gyda'ch cyfeiriad newydd. Efallai y bydd angen i chi gofrestru gyda meddyg a deintydd newydd.

YSGOLION

Os bydd yn rhaid i'ch plant newid ysgol, bydd angen i chi gysylltu â'r Tîm Derbyniadau Ysgol yng Nghyngor Gwynedd ar 01766 771000. Byddent yn gallu dweud wrthyhych pa ysgolion sydd yn eich dalgylch chi.

EICH HAWLIAU

Fel tenant i CCG mae gennych nifer o hawliau. Mae'r manylion llawn yn eich Cytundeb Tenantiaeth.

Maen nhw'n cynnwys eich hawl i (yn ôl amodau):

- wneud sylw
- gymryd rhan
- ymgynghori
- preifatrwydd
- trwsio
- gwella eich cartref
- iawndal am welliannau
- cyfnewid
- cymryd lletywr
- is-osod rhan o'ch cartref
- aseinio
- olyniaeth
- caffael
- cadw'r hawl i brynu

Os ydych eisiau mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r rhain edrychwch ar eich Cytundeb Tenantiaeth neu ffoniwch ni ar 0300 123 8084 i siarad gydag un o'n swyddogion.

Mae copi o'r polisiau a thafenni gwybodaeth ar gael drwy gysylltu â ni ar 0300 123 8084 neu ewch i'n gwefan www.ccgwynedd.org

CYFRIFOLDEBAU

Mae gennych chi fel tenant a ninnau fel landlord gyfrifoldebau. Mae'r rhain yn cael eu rhestru yn fanwl yn eich Cytundeb. Fel tenant mae eich cyfrifoldebau yn cynnwys talu eich rhent ar amser, bod yn gymydog da a chadw eich eiddo yn dwt ac yn lân.

Mae'n bwysig eich bod yn cadw at amodau eich Cytundeb Tenantiaeth.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod pob aelod o'r cartref ac unrhyw ymwelwyr i'ch cartref yn ymddwyn yn briodol ac yn cadw at amodau eich tenantiaeth.

Fel landlord bydd CCG yn:

- Sicrhau eich bod yn cael sicrwydd daliadaeth eich cartref
- Sicrhau eich bod yn cael byw mewn heddwch yn eich cartref heb ymyrraeth gan gymdogion
- Cynnig cefnogaeth i bobl sy'n dioddef o niwsans
- Cynnal a chadw eich cartref

TENANTIAETH AR Y CYD

Os oes gennych denantiaeth ar y cyd mae pawb sydd wedi ei enwi ar y cytundeb tenantiaeth yn gyfrifol am gadw at yr amodau. Mae hyn yn cynnwys talu'r rhent.

Os byddwch chi a'ch partner yn gwahanu ac yn methu cytuno rhyngoch pwy ddylai aros yn yr eiddo gallwn eich cyfeirio at asiantaethau annibynnol i roi cyngor a chymorth i chi e.e Shelter Cymru neu Cyngor ar Bopeth.

Bydd CCG yn mynd yn ôl penderfyniad Llys.

Gofynnwn i chi roi gwybod i ni am unrhyw newid i'ch cartref yn syth fel y gallwn roi cyngor priodol i chi.

PARCIO

Mae pawb eisiau parcio'n agos at ei gartref, ond nid yw hyn yn bosibl bob tro. Cofiwch ystyried eraill wrth barcio. Peidiwch â chau'r ffordd fynediad i'r gwasanaethau brys na pharcio ar lwybrau cerdded - gall hyn achosi niwed a bod yn beryglus i blant a phobl sydd â nam ar eu golwg.

Mae CCG yn berchen ar nifer o fodurdai drwy Wynedd. Maen nhw ar gael i gadw cerbydau yn unig.

Cysylltwch â ni os oes gennych ddi-ddordeb mewn rhentu modurdy.

Ni ddylech barcio carafanau, trelars na cherbydau masnachol yn y llefydd parcio na'r gerddi heb ganiatâd.

ANIFEILIAID ANWES

Os ydych yn cadw cŵn neu anifeiliaid anwes eraill, rhaid i chi wneud yn siŵr nad ydynt yn achosi niwsans neu'n aflonyddu ar eich cymdogion nac yn achosi difrod i'ch cartref. Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu bod eich anifail anwes yn cael eu cadw dan reolaeth ac yn saff o fewn eich cartref ac mewn mannau cyhoeddus, a bod unrhyw faw yn cael ei glirio'n syth.

TROSEDD

Cymerwch gyfrifoldeb dros ddweud am droseddau yn eich cymuned, fel ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar y stad, gwerthu cyffuriau, troseddau ceir, gyrru'n wirion a difrodi eiddo. Soniwch am hyn wrth yr heddlu, ac yna wrth Swyddogion yn eich swyddfa ardal CCG.

Cymerwch gyfrifoldeb dros wneud eich cartref, sied neu garej yn ddiogel. Am gost gweddol fychan gallwch wneud eich cartref yn fwy diogel a chael tawelwch meddwl hefyd.

AMGYLCHEDD CYFFREDINOL

Dywedwch wrthym am unrhyw ddifrod neu sbwriel sy'n cael ei adael, neu unrhyw broblemau a welwch mewn llefydd cymunedol, gan gynnwys graffiti. Cysylltwch â Chyngor Gwynedd ar 01766 771000 i sôn am oleuadau stryd ddiffygiol neu ysbwriel.

GERDDI

Os oes gennych ardd (ffrynt, ochr neu gefn) eich cyfrifoldeb chi yw ei chadw'n dwt. Mae hyn yn cynnwys symud sbwriel, neu dorri gwair a gwrychoedd.

NEWIDIADAU I'CH AELWYD

Cofiwch roi gwybod i ni os yw eich manylion yn newid e.e newid enw, babi newydd, pobl yn symud allan, neu farwolaeth. Mae rhaid i chi ddweud wrth adran Budd-daliadau Tai Cyngor Gwynedd hefyd os bydd newid yn nifer y bobl yn eich cartref, neu yn eich incwm – eich cyfrifoldeb chi yw hyn.

BUSNESAU

Rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan CCG cyn rhedeg busnes o'ch cartref.

MYND I FFWRDD?

Os ydych yn gadael eich cartref yn wag am bedair wythnos neu fwy, rhowch wybod i'ch swyddfa CCG leol, a dweud wrthynt hefyd gan bwy mae'r gorriad rhag ofn bod argyfwng.

Gall effeithio eich yswiriant cartref os ydych yn gadael eich eiddo am fwy na 30 diwrnod.

DIDDORDEB MEWN EIDDO ARALL

Os dewch yn berchennog ar eiddo arall, rhaid i chi roi gwybod i ni yn syth.

DOD Â THENANTIAETH I BEN

Gallwch ddod â'ch tenantiaeth i ben ar unrhyw adeg trwy roi pedair wythnos o rybudd ysgrifenedig i ni. Bydd angen i chi roi eich cyfeiriad newydd i ni hefyd.

Arbed **arian** wrth arbed **ynni**

- ✓ Peidiwch â gor-lenwi eich tegell
- ✓ Rhowch gaead ar sosban wrth goginio bydd yn berwi'n gynt
- ✓ Defnyddiwch gylch coginio sydd yr un maint â'ch sosban
- ✓ Peidiwch â gadael drws eich oergell yn agored
- ✓ Golchwch eich dillad ar 30°C
- ✓ Gwnewch yn siwr fod eich peiriant golchi dillad a llestri yn llawn
- ✓ Sychwch eich dillad ar y lein
- ✓ Gall troi eich thermostat lawr un gradd arbed tua £50 y flwyddyn i chi
- ✓ Trowch y goleuadau i ffwrdd ym mhob ystafell wrth eu gadael
- ✓ Defnyddiwch fylbiau arbed ynni yn lle rhai arferol i arbed hyd at £25 y flwyddyn
- ✓ Mae tŷ cyffredin yn gwastraffu £40 pob blwyddyn ar gyfartaledd drwy adael teclynnau ar 'standby' felly diffoddwch bethau yn y wal
- ✓ Yn aml iawn mae'n rhatach talu biliau ynni drwy debyd uniongyrchol - cysylltwch â'ch darparwr er mwyn gweld os oes ganddynt gynnigion arbennig
- ✓ Gallwch arbed arian drwy ofyn am dderbyn eich bil arlein ac nid ar bapur – holwch eich darparwr



£50

